



## **Papur Gwybodaeth Manwl**

# **Cylch Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

**2020/21**

Ddoe cyflwynodd y Canghellor Sajid Javid AS ddatganiad Cylch Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer 2020/21. Dim ond am y flwyddyn nesaf y bydd y cyllidebau adrannol a osodir yn ystod y Cylch Gwariant hwn, oherwydd yr ansicrwydd am Brexit.

Am yr hyn fydd yn flwyddyn gyntaf yr Undeb Ewropeaidd, dywedodd y Canghellor y bydd yr adolygiad yn cychwyn cyfnod economaidd newydd gyda'r cynnydd mwyaf mewn gwariant dydd-i-ddydd mewn 15 mlynedd.

Fel rhan o ymrwymiad Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, rydym wedi gweithio i gasglu a chrynhofi'r datganiadau allweddol gan Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda pherthnasedd i'r sector tai yng Nghymru.



## Datganiad allweddol ar gyfer Cymru

Caiff £600m ychwanegol o gyllid ei ddyrannu i gyllideb ddatganoledig Llywodraeth Cymru. Daw'r cyllid cynyddol fel canlyniad i'r gwariant ychwanegol ar feysydd fel addysg (£2.6bn) a'r NHS (£6.2bn yn Lloegr).

### Crynodeb cyhoeddiadau

- Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig mai paratoi ar gyfer Brexit yw'r brif flaenoriaeth, gan ddyrannu cyfanswm cyllideb o £6.3bn. Mae hyn yn cynnwys £2.1bn ym mis Awst eleni i gynyddu parodrwydd adrannau a chenhedloedd datganoledig ar gyfer sefyllfa dim cytundeb mewn meysydd critigol (er enghraifft, mynediad i feddyginiaeth a staff rheoli ffiniau).
- Ymrwymwyd cyfanswm o £241m i'r Gronfa Trefi i gefnogi adfywio'r stryd fawr, canol trefi ac economïau lleol yn 2020/21.
- Bydd gwariant dydd-i-ddydd yn cynyddu gan £13.8bn (4.1%) gydag Addysg, y GIG a'r Heddlu yn brif flaenoriaethau.
- Cyn y Gyllideb y flwyddyn nesaf, bydd y Llywodraeth yn adolygu'r fframwaith ariannol ynghyd â rhagolwg economaidd a chyllidol diweddedig ac yn cyflwyno cynllun economaidd newydd. Dywedodd y Canghellor mai prif flaenoriaeth y cynllun economaidd newydd fydd ail-adeiladu seilwaith cenedlaethol, lle mae Llywodraethau blaenorol wedi tan-fuddsoddi yn y gorffennol.
- Mae setliad Llywodraeth Leol yn cynnwys £1.5bn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion a phlant yn 2020/21. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymroddedig i gyflwyno cynigion ar wahân ar gyfer gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy a thecach maes o law (Lloegr yn unig).
- Bydd y system cyfiawnder troseddol yn derbyn £55m i gefnogi gwaith 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol.



- Bydd £40m o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer Taliadau Tai ar Ddisgresiwn i fynd i'r afael â phwysau fforddiadwyedd yn y sector rhent preifat yn Lloegr a Chymru.
- Dyrennir £54m ychwanegol i helpu gostwng digartrefedd a chysgu ar y stryd, ynghyd â £23m i gyllido amrywiaeth o fesurau eraill yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer symud i'r Credyd Cynhwysol a gweithgareddau allgymorth ychwanegol (Lloegr yn unig).
- Bydd £30m ychwanegol yn anelu i hybu cynnydd ar ddatblygu cynlluniau datgarboneiddio fydd yn helpu i symud y Deyrnas Unedig tuag at ei tharged o ddim net o allyriadau nwyon tŷ gwyrdr erbyn 2050. Bydd manylion pellach yn y Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol yn yr hydref eleni.

**Mae dogfennau llawn y Cylch Gwariant ar gael**  
[yma](#)